

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019

PRESENNOL: Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R LI Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Shaun Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo),
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Neb

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Richard Owain Jones a P S Rogers.

1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir yn gywir: -

- 10 Medi, 2019
- 7 Hydref, 2019 (Arbennig)
- 22 Hydref, 2019 (Arbennig)

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn: -

- Llongyfarchiadau i'r rheini a fu'n llwyddiannus yn y Ffair Aeaf ym Mona fis diwethaf a hefyd yn Llanfair ym Muallt;
- Llongyfarchiadau i'r Ffermwyr Ifanc o Ynys Môn a gystadlodd yn Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc yn Wrecsam yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Dylan Rees a benodwyd yn ddiweddar yn Is-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Peter Rogers am wellhad buan yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar.

Diolchodd y Cadeirydd i staff a defnyddwyr Gerddi Blaen y Coed a Haulfre am addurno Coeden Nadolig y Cyngor Sir yn ardal y dderbynfa.

* * * *

Cydymdeimlwyd â Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn dilyn marwolaeth ei dad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â Mrs Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini yn dilyn marwolaeth ei thad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

4. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones: -

“Yn y gorffennol, gorchuddiwyd Ynys Môn gan goed Derw ond erbyn heddiw mae'n un o'r ardaloedd lleiaf coediog yng Nghymru. Rhoddwyd caniatâd i Goedwig Penrhos yng Nghaergybi gael ei throi'n Barc Chwarae ar gyfer Cabanau Gwyliau.

Mae angen i ni fel Cyngor wrthdroi'r dirywiad yn ein coetiroedd a chymryd camau pendant i annog plannu mwy o goed ar Ynys Môn.

Rydw i'n gofyn am ymgyrch ledled yr ynys gyda phob ysgol a'u disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith plannu coed ac i'n Cyngor a'n cwmnïau lleol eu nodd.”

Eiliwyd y cynigiad gan y Cynghorydd Bryan Owen.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor welliant i baragraff olaf Rhybudd o Gynigiad y Cynghorydd R LI Jones, sef bod y Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwneud â'r gwaith o blannu'r coed. Nododd fod gohebiaeth wedi ei hanfon at bob Cyngor Tref

a Chymuned trwy Fforwm Cyswllt y Cyngorau Tref a Chymuned i godi ymwybyddiaeth o fenter Ymddiriedolaeth Coed Cymru i roi coed am ddim i grwpiau cymunedol i'w plannu'n lleol. Dywedodd ymhellach ei bod hi, fel Arweinydd, yn bwriadu mynd ar ôl cyllid cyfalaf a referniw tymor hir gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiect plannu coed ar yr Ynys.

Roedd aelodau'r Cyngor yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y coetiroedd a'r angen i annog busnesau a chymunedau lleol i gymryd rhan yn y fenter plannu coed.

5. Yn y bleidlais ddilynol fe gafodd y gwelliant i'r Rhybudd o Gynigiad ei gario. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

6. CYFANSODDIAD Y CYNGOR – Y BROSES GOSOD CYLLIDEB

Cyflwynwyd – penderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd fel a ganlyn:-

'Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad'.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS
CADEIRYDD**